



# Rheolau Chwaraeon yr Urdd

## 2026-27

### Cystadlaethau Ysgolion Cynradd



ChwaraeonyrUrdd



ChwaraeonUrdd



02922 405 345



chwaraeon@urdd.org



## Cynnwys

[Rheolau Saesneg – Cliciwch yma | Rules in English – Click here](#)

|                                | Tudalen |
|--------------------------------|---------|
| <b>Cyffredinol</b> .....       | 3 - 6   |
| <b><u>Pêl-droed</u></b>        |         |
| 7 pob ochr Merched .....       | 7-8     |
| 7 pob ochr Agored .....        | 9-10    |
| 5 pob ochr Cymysg Bl.3-4 ..... | 11-12   |
| <b><u>Pêl-rwyd</u></b>         |         |
| Merched .....                  | 13      |
| Cymysg .....                   | 14      |
| <b><u>Rygbi</u></b>            |         |
| Contact Agored .....           | 15      |
| Rygbi Tag Merched .....        | 16      |
| Rygbi TAG Cymysg .....         | 17      |
| Criced 50 50 .....             | 18-19   |
| <b>Diolchiadau</b> .....       | 20      |

# Rheolau Cyffredinol Cystadlaethau Chwaraeon yr Urdd

## 1) Trefn Cystadlaethau

Bydd mwyafrif y cystadlaethau yn cael eu cynnal yn ystod diwrnod ysgol. Bydd gofyn i dimau gofrestru'n brydlon o 9:00yb, gyda'r cystadlaethau'n dechrau am 10:00yb. Gofynnwn i ysgolion gyrraedd ar amser er mwyn sicrhau bod y cystadlaethau'n rhedeg yn unol â'r amserlen.

Bydd y swyddog sy'n trefnu'r gystadleuaeth yn rhannu gwybodaeth ynghylch yr amser gorffen disgwylledig. Bydd angen i ysgolion gadarnhau eu bod ar gael i gyflawni pob gêm a drefnir er mwyn bod yn gymwys i symud ymlaen i'r camau terfynol.

## 2) Pwyntiau yn y gemau grŵp

Defnyddir y system bwyntiau ganlynol ar gyfer holl gystadlaethau rhanbarthol Chwaraeon yr Urdd:

- **3 phwynt** am ennill gêm
- **1 pwynt** am gêm gyfartal
- **0 pwynt** am golli gêm

Os bydd timau'n gyfartal ar bwyntiau o fewn grŵp ar ôl cwblhau'r holl gemau, defnyddir y meini prawf canlynol, yn y drefn hon:

1. Y nifer fwyaf o goliau wedi'u sgorio.
2. Y nifer lleiaf o goliau wedi'u hildio.
3. Canlyniad y gêm benben (*head-to-head*) rhwng y timau perthnasol.
4. Taflïad ceiniog rhwng hyfforddwyr y timau sy'n gyfartal.

Os bydd tîm yn tynnu allan o'r gystadleuaeth cyn cwblhau ei holl gemau, dyfernir '**bye**' ar gyfer pob gêm sydd heb ei chwarae. Bydd sgôr safonol benodol i'r gamp yn cael ei chofnodi ar gyfer y gemau hynny.

Os bydd angen penderfynu pa dîm sy'n gorffen fel yr ail safle gorau, a bod maint y grwpiau'n anghyfartal, defnyddir y meini prawf canlynol, yn y drefn hon:

1. Nifer y gemau a gollwyd.
2. Nifer y gemau cyfartal.
3. Cyfartaledd y goliau a sgoriwyd.
4. Cyfartaledd y goliau aildiwyd.
5. Taflïad ceiniog.

## 3) Gemau'r Rowndiau Terfynol (rheol wahanol i'r criced)

Bydd enillwr pob gêm yn y rowndiau terfynol yn symud ymlaen i'r rownd nesaf, tra bydd y tîm sy'n colli allan o'r gystadleuaeth.

Os bydd gêm yn gyfartal ar ddiwedd yr amser arferol, cynhelir cyfnod cais aur / gôl aur er mwyn penderfynu'r enillydd. Yn dibynnu ar yr amser sydd ar gael, yn ôl disgrisiwn y staff ar y diwrnod. Yr unig eithriad yw pêl-rwyd, lle bydd cyfnod o amser ychwanegol yn cael ei chwarae cyn symud ymlaen i'r gôl aur os bydd angen.

Cyn dechrau'r amser ychwanegol neu'r cyfnod cais aur / gôl aur, cynhelir taflïad ceiniog i benderfynu pa dîm fydd yn cael y meddiant cyntaf.

Mewn cystadlaethau pêl-droed, os bydd y sgôr yn parhau'n gyfartal ar ôl y cyfnod gôl aur, bydd ciciau o'r smotyn yn penderfynu'r canlyniad. Bydd pob tîm yn cymryd pum cic i

ddechrau, ac os bydd y sgôr yn dal yn gyfartal, bydd y gystadleuaeth yn symud i giciau sydyn ("sudden death").

Mewn cystadlaethau rygbi a pêl-rwyd, os na fydd enillydd wedi'i bennu ar ôl y cyfnod cais aur / gôl aur, bydd taflïad ceiniog yn cael ei ddefnyddio i benderfynu'r canlyniad

#### 4) Chwaraewyr

Maint carfan:

| Cystadleuaeth              | Maint y carfan               | Elfen cymysg                         |
|----------------------------|------------------------------|--------------------------------------|
| Rygbi Agored Bl.5-6        | 7 pob ochr   12 mewn carfan  |                                      |
| Rygbi TAG Merched Bl.5-6   | 7 pob ochr   12 mewn carfan  |                                      |
| Rygbi TAG Cymysg Bl.3-4    | 7 pob ochr   12 mewn carfan  | O leiaf 2 ferch a 2 bachgen ar y cae |
| Pêl-droed Agored Bl.5-6    | 7 pob ochr   12 mewn carfan  |                                      |
| Pêl-droed Merched Bl.5-6   | 7 pob ochr   12 mewn carfan  |                                      |
| Pêl-droed Cymysg Bl.3-4    | 5 pob ochr   10 mewn carfan  | O leiaf 1 ferch a 1 bachgen ar y cae |
| Pêl-rwyd Merched Bl.5-6    | 7 pob ochr   12 mewn carfan  |                                      |
| Pêl-rwyd Cymysg Bl.5-6     | 7 pob ochr   12 mewn carfan  | O leiaf 2 ferch a 2 bachgen ar y cae |
| Criced 50 50 Cymysg Bl.3-4 | 10 pob ochr   12 mewn carfan | O leiaf 2 ferch a 2 bachgen ar y cae |

Caniateir i ddisgyblion Blwyddyn 4 chwarae yng nghystadlaethau pêl-droed, pêl-rwyd a rygbi tag Blynnyddoedd 5 a 6 os oes angen chwaraewyr ychwanegol ar y tîm. Er mwyn bod yn gymwys i chwarae, rhaid i'r ysgol gyflwyno llythyr caniatâd wedi'i lofnodi gan riant neu warcheidwad y disgybl. Cysylltwch â'ch swyddog chwaraeon lleol i gael copi o'r llythyr caniatâd.

Nid oes hawl i unrhyw ddisgybl o Flwyddyn 4 gymryd rhan yng nghystadleuaeth rygbi agored Blynnyddoedd 5 a 6. Yn yr un modd, nid oes hawl i unrhyw ddisgybl o Flwyddyn 2 gymryd rhan mewn unrhyw gystadleuaeth ar gyfer Blynnyddoedd 3 a 4.

Mae cystadlaethau ysgolion cynradd Chwaraeon yr Urdd wedi'u categorio fel cystadlaethau merched, cymysg neu agored. Mae hawl gan gyfranogwyr i gystadlu yn y categori y maent yn uniaethu ag ef fwyaf. I ddarllen Datganiad Trawsryweddol Cystadlaethau Chwaraeon yr Urdd yn llawn, ewch wefan yr urdd.

#### Cystadleuaeth Gymysg

Cyfeiriwch at reolau'r gamp berthnasol i weld faint o fechgyn a merched sydd angen bod ym mhob tîm.

#### Cystadleuaeth Agored

Gall tîm gynnwys unrhyw gymysgedd o fechgyn a merched. Er enghraifft, gall tîm fod yn gwbl fechgyn, yn gwbl ferched neu'n gymysg.

Rhaid i ysgolion ffederasiwn gydymffurfio â Rheolau Ysgolion Ffederasiwn Chwaraeon yr Urdd er mwyn bod yn gymwys i gymryd rhan yng nghystadlaethau'r Urdd. Ni chaniateir i ysgolion nad ydynt wedi'u ffedereiddio gyfuno i greu tîm.

Rhaid i dimau fynychu gyda lleiafswm o saith chwaraewr (ac eithrio Criced 50|50). Mewn achosion lle nad oes gan dîm saith chwaraewr ar gael oherwydd anaf neu salwch ar y diwrnod, rhaid i'r ddau dîm ddechrau'r gêm gyda'r un nifer o chwaraewyr ar y cae, gyda lleiafswm o bum chwaraewr yr un.

Os bydd chwaraewr yn derbyn cerdyn coch, bydd yn cael ei anfon oddi ar y cae am weddill y gêm. Yn ogystal, ni fydd hawl ganddo gymryd rhan yng ngweddill y gystadleuaeth.

## 5) Eilyddion

Nid oes cyfyngiad ar nifer yr eilyddion y gall tîm eu defnyddio. Caniateir gwneud newidiadau yn ystod unrhyw doriad mewn gêm, ar yr amod bod y dyfarnwr yn ymwybodol o'r newid ac yn cytuno iddo. Yr unig eithriad yw pêl-rwyd, lle mae rheolau penodol ar gyfer eilyddion yn berthnasol (gweler rheolau pêl-rwyd isod).

Bydd unrhyw chwaraewr sy'n gadael y cae oherwydd anaf i'r pen yn gorfod cael ei asesu gan aelod o'r tîm cymorth cyntaf cyn iddo gael dychwelyd i chwarae. Cyfrifoldeb yr athrawon a'r swyddogion sy'n gyfrifol am y tîm yw sicrhau bod asesiad priodol yn cael ei gynnal cyn caniatáu i'r chwaraewr ddychwelyd i'r gêm.

## 6) Aelodaeth

Rhaid i bob unigolyn sy'n cymryd rhan yng nghystadlaethau Chwaraeon yr Urdd fod yn aelod o'r Urdd. Cyfrifoldeb yr ysgol yw sicrhau bod pob cystadleuydd wedi ymaelodi cyn y gystadleuaeth.

Hoffem atgoffa ysgolion bod aelodaeth ar gael am £1 i unigolion sy'n gymwys i dderbyn cymorth ariannol. Mae'r Urdd yn cadw'r hawl i anfonebu ysgol os canfyddir bod cystadleuwyr wedi cymryd rhan heb fod yn aelodau dilys o'r Urdd.

Am ragor o wybodaeth ynghylch aelodaeth ac i ymaelodi â'r Urdd, ewch i'n wefan.

## 7) Dyfarnwyr

Mae penderfyniadau'r dyfarnwyr yn derfynol a rhaid i bob cyfranogwr, hyfforddwr a chefnogwr eu parchu bob amser.

Os bydd unrhyw unigolyn neu dîm yn ymddwyn yn amhriodol neu'n dangos diffyg parch tuag at staff, swyddogion neu ddyfarnwyr, gall hynny arwain at gamau disgyblu, gan gynnwys gwahardd y tîm rhag parhau yn y gystadleuaeth.

Am ragor o wybodaeth, darllenwch God Ymddygiad yr Urdd ar wefan yr Urdd. Mae'r Urdd yn cadw'r hawl i gydweithio â dyfarnwyr a swyddogion y gystadleuaeth i addasu rheolau neu drefniadau, os oes angen, er mwyn ymateb i safon y gystadleuaeth, nifer y tîmau sy'n cymryd rhan neu amodau'r tywydd. Bydd unrhyw addasiadau'n cael eu cyfathrebu'n glir i'r ysgolion a'r tîmau perthnasol.

## 8) Sgorio

Y dyfarnwyr fydd yn gyfrifol am gofnodi sgoriau'r gemau (ac eithrio gemau pêl-rwyd). Ar ddiwedd pob gêm, rhaid i hyfforddwyr y ddau dîm wirio ac arwyddo'r cerdyn sgôr i gadarnhau'r canlyniad. Os bydd anghydfod neu anghytundeb ynghylch y sgôr, penderfyniad y dyfarnwr a/neu staff Chwaraeon yr Urdd fydd yn derfynol.

Os bydd y gwahaniaeth sgôr yn cyrraedd 10 gôl neu gais, bydd y sgorio'n dod i ben ar y pwynt hwnnw a bydd canlyniad y gêm yn cael ei gofnodi. Fodd bynnag, bydd y gêm yn parhau mewn fformat gŵyl er mwyn sicrhau bod pob cyfranogwr yn cael cyfle i barhau i chwarae.

## **9) Meddygol**

Dylai pob tîm fod yn ymwybodol bod cymryd rhan mewn cystadlaethau chwaraeon yn cynnwys risg o anaf. Anogir ysgolion a thimau i ddod â chyflenwad sylfaenol o offer cymorth cyntaf, megis plasteri, i'w ddefnyddio os bydd angen.

Bydd yr Urdd yn sicrhau bod darpariaeth cymorth cyntaf briodol ar gael ym mhob cystadleuaeth. Fodd bynnag, cyfrifoldeb athrawon, hyfforddwyr a'r oedolion sy'n gyfrifol am y tîm yw sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn cael eu defnyddio pan fo angen ac y caiff unrhyw bryderon iechyd neu anafiadau eu hasesu'n briodol.

Mae'n hanfodol bod ysgolion yn rhoi gwybod i'r Urdd ymlaen llaw am unrhyw gyflwr meddygol, anghenion iechyd neu wybodaeth berthnasol arall a allai effeithio ar gyfranogiad unigolyn yn y gystadleuaeth.

Os bydd dyfarnwr, aelod o staff Chwaraeon yr Urdd neu weithwyr cymorth cyntaf yn pryderu am iechyd, diogelwch neu les cyfranogwr, maent yn cadw'r hawl i atal yr unigolyn rhag cymryd rhan neu barhau i chwarae. Bydd unrhyw benderfyniad o'r fath yn cael ei wneud er budd gorau'r cyfranogwr ac er mwyn sicrhau diogelwch pawb sy'n cymryd rhan.

## **10) Gwisg**

Ni chaniateir i chwaraewyr wisgo unrhyw emwaith nac eitemau miniog yn y gwallt wrth gymryd rhan mewn cystadlaethau, gan gynnwys clustdlysau. Yr unig eithriadau yw lle mae gofynion meddygol neu grefyddol yn berthnasol, ac ystyrir y rhain yn unol â chanllawiau iechyd a diogelwch perthnasol.

Rhaid i bob cyfranogwr wisgo gwisg chwaraeon addas ar gyfer y gamp berthnasol. Mae hyn yn cynnwys esgidiau neu fotiau priodol, yn dibynnu ar natur y gweithgaredd a chyflwr y chwaraeon neu'r tir chwarae.

Cyfrifoldeb yr ysgolion, yr hyfforddwyr a'r cyfranogwyr yw sicrhau bod pob chwaraewr wedi'i wisgo'n briodol ac yn ddiogel cyn dechrau chwarae. Bydd gan ddyfarnwyr a swyddogion Chwaraeon yr Urdd yr hawl i atal unigolyn rhag cymryd rhan os ystyrir bod ei wisg neu ei offer yn peri risg i'w ddiogelwch ef neu ddiogelwch eraill.

## **11) Cyffredinol**

Os nad ydych yn caniatáu i luniau gael eu tynnu o ddisgybl neu ddisgyblion, cysylltwch â swyddog yr Urdd sy'n trefnu'r gystadleuaeth cyn y digwyddiad. Mae rhagor o wybodaeth am y drefn ffotograffiaeth ar gael ym Mholisi Ffotograffiaeth yr Urdd ar y wefan.

Bydd y rhan fwyaf o gystadlaethau Chwaraeon yr Urdd yn cael eu cynnal mewn lleoliadau cyhoeddus. Cyfrifoldeb athrawon a hyfforddwyr yw sicrhau bod disgyblion yn ymddwyn yn briodol drwy gydol y dydd. Gofynnwn hefyd i bawb helpu i gadw'r safle'n lân drwy roi pob darn o sbwriel yn y biniau a ddarperir.

Cyfrifoldeb yr ysgol yw sicrhau bod cymhareb briodol rhwng oedolion a disgyblion er mwyn goruchwyllo'r plant sy'n cymryd rhan yn y gystadleuaeth. Rhaid i bob ysgol sicrhau bod o leiaf un athro, athrawes neu hyfforddwr yn bresennol gyda phob tîm sy'n mynychu.

Cyfrifoldeb yr hyfforddwyr yw sicrhau bod eu timau yn bresennol wrth y cae neu'r cwrt mewn pryd ar gyfer eu gemau. Gofynnir i dimau fod yn barod wrth y cae neu'r cwrt o leiaf 5 munud

cyn amser dechrau'r gêm, er mwyn caniatáu amser i gwblhau unrhyw drefniadau cyn y gic neu'r tafliad cychwynnol.

Os bydd tîm yn hwyr ar gyfer gêm, gall hynny arwain at golli'r gêm neu at gamau pellach yn ôl disgresiwn swyddogion y gystadleuaeth.


Bydd yr Urdd yn cadarnhau ymlaen llaw a oes hawl i rieni a gwylwyr fynychu digwyddiad penodol. Mae'r Urdd yn cadw'r hawl i wrthod mynediad i rieni neu wylwyr os oes angen. Rhaid i unrhyw ymholiadau, sylwadau neu gwynion ynghylch cystadlaethau gael eu cyflwyno gan yr ysgol. Ni fydd yr Urdd yn ymdrin yn uniongyrchol â chwynion gan rieni na gwylwyr.

## **12) Chwarae Teg**

Hoffem ddiolch i chi am eich diddordeb yng nghystadlaethau Chwaraeon yr Urdd. Trefnir y cystadlaethau hyn nid yn unig i ddatblygu sgiliau chwaraeon plant a phobl ifanc Cymru, ond hefyd i feithrin eu sgiliau cymdeithasol, eu hyder a'u dealltwriaeth o bwysigrwydd chwarae teg, parch a gwaith tîm.

Gofynnwn i bawb, gan gynnwys chwaraewyr, hyfforddwyr, athrawon, rhieni a chefnogwyr, gefnogi'r nod hwn drwy gyfrannu at awyrgylch cadarnhaol, cynhwysol a pharchus i bawb sy'n cymryd rhan.

**Pob lwc a mwynhewch y profiad! 🏆**



## Pêl-droed 7 pob ochr Merched

### Carfan

Blwyddyn 5 a 6 (Caniateir blwyddyn 4 i gymryd rhan gyda chaniatâd rhiant)  
Carfan o hyd at 12 merch i bob tîm

### Amser

- Ni ddylai'r un gêm barhau am fwy na 14 munud
- Ni ddylai'r gôl aur barhau am fwy na 10 munud

### Ardal Chwarae

- O gwmpas 45 llath (hyd) x 40 llath (lled) - gan dibynnu ar maint y lleoliad
- Y maint a gymeradwyir ar gyfer y gôl yw 12 troedfedd x 6 troedfedd
- Mae'r ardal o gwmpas y gôl yn ymestyn 10 llath o'r llinell gôl ar draws lled y cae, gyda chonau yn marcio'r llinell ochr neu ddisgiau ar draws y cae

### Gôl-geidwad

- Rhaid i'r gôl-geidwad daflu'r bêl o'i ddwylo yn hytrach na'i chicio. Does **ddim** hawl i gôl-geidwad neud 'drop-kick', bownsio'r bêl a chicio neu gicio o'r dwylo. Rhaid i'r bêl cael ei roi ar y llawr (ddim yn bownsio) i'r bêl cael ei gicio.
- Gall y gôl-geidwad rhoi'r bêl ar y llawr a chwarae'r bêl gyda'i thraed (nodwch fod y bêl yn fyw unwaith mae'r bêl yn cael eu gollwng ar y llawr)
- Mae'r gôl-geidwad yn gallu dal y bêl yn yr ardal cosb ac nid oes cyfyngiad ar y nifer o gamau y gellir eu cymryd gyda'r bêl
- Gellir cymryd y gic gôl o'r llawr unrhyw le o fewn yr ardal gosb
- Yn ystod gic gôl rhaid i'r tîm arall enciliad (retreat) 10 llath cyn i'r bêl cael ei gicio
- Ni all y gôl-geidwad dal y bêl yn ei ddwylo os mae chwaraewr o'r un tîm wedi pasio nôl iddynt

### Ciciau Cornel / Cosb

- Mae pob cic rydd yn anuniongyrchol (indirect). Rhaid i'r tîm amddiffyn fod o leiaf 3 llath i ffwrdd. Rhaid i'r bel cyffwrdd chwaraewr arall o eich tîm chi cyn sgorio.
- Does dim ciciau cosb
- Mae ciciau cornel fel yr arfer, ond rhaid i'r tîm gwrthwynebol fod o leiaf 3 llath i ffwrdd

### Ciciau Smotyn – rowndiau terfynol

- Os mae'r gemau yn mynd i ciciau o'r smotyn, y chwaraewyr sydd ar y cae ar diwedd amser y gôl aur sy'n cymryd y ciciau. Does ddim hawl newid y gôl-geidwad.
- Gorau o 5 cic cosb. Wedyn ymlaen i 'knock-out' os mae'r sgôr dal yn gyfartal.

### Rheolau Cyffredinol

- Fe ddylai'r bêl fod yn faint 4
- Ceir cic gychwyn o ganol y cae i ddechrau'r gêm ac ar ôl i gôl gael ei sgorio - Mae angen i'r tîm amddiffyn fod 3 llath i ffwrdd ac na all gôl cael ei sgorio yn syth o'r gic gyntaf.
- Dylid cymryd y tafladau i mewn yn y ffordd arferol
- Gellir defnyddio eilyddion yn ystod unrhyw adeg o'r gêm
- Nid oes cyfyngiad ar y nifer o chwaraewyr y gellir eu cael yng nghwrt y gôl

- **Rhaid i bob chwaraewr wisgo ‘shin pads’ i gymryd rhan – ni fydd yr Urdd yn darparu rhain**
- Nid oes rheol camsefyll



## Pêl-droed 7 pob ochr Agored

### Carfan

Blwyddyn 5 a 6 (Caniateir blwyddyn 4 i gymryd rhan gyda chaniatâd rhiant)

Carfan o hyd at 12 chwaraewr (gall fod yn unrhyw cyfuniad o ferched a bechgyn – does yna ddim cymhareb gofynnol ar gyfer y cystadleuaeth yma)

### Amser

- Ni ddylai'r un gêm barhau am fwy na 14 munud
- Ni ddylai'r gôl aur barhau am fwy na 10 munud

### Ardal Chwarae

- O gwmpas 45 llath (hyd) x 40 llath (lled) – gan dibynnu ar maint y lleoliad
- Y maint a gymeradwyir ar gyfer y gôl yw 12 troedfedd 6 troedfedd
- Mae'r ardal o gwmpas y gôl yn ymestyn 10 llath o'r llinell gôl ar draws lled y cae, gyda chonau yn marcio'r llinell ochr neu ddisgiau ar draws y cae

### Gôl-geidwad

- Rhaid i'r gôl-geidwad daflu'r bêl o'i ddwylo yn hytrach na'i chicio. Does **ddim** hawl i gôl-geidwad neud 'drop-kick', bownsio'r bêl a chicio neu gicio o'r dwylo. Rhaid i'r bêl cael ei roi ar y llawr (ddim yn bownsio) i'r bêl cael ei gicio.
- Gall y gôl-geidwad rhoi'r bêl ar y llawr a chwarae'r bêl gyda'i thraed (nodwch fod y bêl yn fyw unwaith mae'r bêl yn cael eu gollwng ar y llawr)
- Mae'r gôl-geidwad yn gallu dal y bêl yn yr ardal cosb ac nid oes cyfyngiad ar y nifer o gamau y gellir eu cymryd gyda'r bêl
- Gellir cymryd y gic gôl o'r llawr unrhyw le o fewn yr ardal gosb
- Yn ystod gic gôl rhaid i'r tîm arall enciliad (retreat) 10 llath cyn i'r bêl cael ei gicio
- Ni all y gôl-geidwad dal y bêl yn ei ddwylo os mae chwaraewr o'r un tîm wedi pasio nôl iddynt

### Ciciau Cornel / Cosb

- Mae pob cic rydd yn anuniongyrchol (indirect). Rhaid i'r tîm amddiffyn fod o leiaf 3 llath i ffwrdd. Rhaid i'r bel cyffwrdd chwaraewr arall o eich tîm chi cyn sgorio.
- Does dim ciciau cosb
- Mae ciciau cornel fel yr arfer, ond rhaid i'r tîm gwrthwynebol fod o leiaf 3 llath i ffwrdd

### Ciciau Smotyn – rowndiau terfynol

- Os mae'r gemau yn mynd i ciciau o'r smotyn, y chwaraewyr sydd ar y cae ar diwedd amser y gôl aur sy'n cymryd y ciciau. Does ddim hawl newid y gôl-geidwad.
- Gorau o 5 cic cosb. Wedyn ymlaen i 'knock-out' os mae'r sgôr dal yn gyfartal.

### Rheolau Cyffredinol

- Fe ddylai'r bêl fod yn faint 4
- Ceir cic gychwyn o ganol y cae i ddechrau'r gêm ac ar ôl i gôl gael ei sgorio - Mae angen i'r tîm amddiffyn fod 3 llath i ffwrdd ac na all gôl cael ei sgorio yn syth o'r gic gyntaf.
- Dylid cymryd y tafladau i mewn yn y ffordd arferol
- Gellir defnyddio eilyddion yn ystod unrhyw adeg o'r gêm
- Nid oes cyfyngiad ar y nifer o chwaraewyr y gellir eu cael yng nghwrt y gôl

- **Rhaid i bob chwaraewr wisgo ‘shin pads’ i gymryd rhan – ni fydd yr Urdd yn darparu rhain**
- Nid oes rheol camsefyll



## Pêl-droed Cymysg Bl.3-4 | 5 pob ochr

### Carfan

Blwyddyn 3 a 4 (nid oes hawl i blwyddyn 2 cymryd rhan)

Carfan o hyd at 10 chwaraewr, gyda 5 yn chwarae ar y tro (**rhaid chwarae gyda o leiaf 1 bachgen a 1 merch ar y cae**)

### Amser

- Ni ddylai'r un gêm barhau am fwy na 14 munud
- Ni ddylai'r gôl aur barhau am fwy na 10 munud

### Ardal Chwarae

- O gwmpas 35 llath (hyd) x 25 llath (lled) – gan dibynnu ar maint y lleoliad
- Y maint a gymeradwyir ar gyfer y gôl yw 12 troedfedd 6 troedfedd
- Mae'r ardal o gwmpas y gôl yn ymestyn 7 llath o'r llinell gôl ar draws lled y cae, gyda chonau yn marcio'r llinell ochr neu ddisgiau ar draws y cae

### Gôl-geidwad

- Rhaid i'r gôl-geidwad daflu'r bêl o'i ddwylo yn hytrach na'i chicio. Does **ddim** hawl i gôl-geidwad neud 'drop-kick', bownsio'r bêl a chicio neu gicio o'r dwylo. Rhaid i'r bêl cael ei roi ar y llawr (ddim yn bownsio) i'r bêl cael ei gicio.
- Gall y gôl-geidwad rhoi'r bêl ar y llawr a chwarae'r bêl gyda'i thraed (nodwch fod y bêl yn fyw unwaith mae'r bêl yn cael eu gollwng ar y llawr)
- Mae'r gôl-geidwad yn gallu dal y bêl yn yr ardal cosb ac nid oes cyfyngiad ar y nifer o gamau y gellir eu cymryd gyda'r bêl
- Gellir cymryd y gic gôl o'r llawr unrhyw le ar ochr yr ardal cosb
- Yn ystod gic gôl ac wrth i gôl-geidwad dal y bêl rhaid i'r tîm arall enciliad (retreat) 10 llath cyn i'r bêl cael ei gicio
- Gall y gôl-geidwad dal y bel yn ei ddwylo (o fewn yr ardal cosb) os mae chwaraewr o'r un tîm wedi pasio nôl iddynt

### Ciciau Cornel / Cosb

- Mae pob cic rydd yn anuniongyrchol (indirect). Rhaid i'r tîm amddiffyn fod o leiaf 3 llath i ffwrdd. Rhaid i'r bel cyffwrdd chwaraewr arall o eich tîm chi cyn sgorio.
- Does dim ciciau cosb
- Mae ciciau cornel fel yr arfer, ond rhaid i'r tîm gwrthwynebol fod o leiaf 3 llath i ffwrdd

### Ciciau Smotyn – rowndiau terfynol

- Os mae'r gemau yn mynd i ciciau o'r smotyn, y chwaraewyr sydd ar y cae ar diwedd amser y gôl aur sy'n cymryd y ciciau. Does ddim hawl newid y gôl-geidwad.
- Gorau o 3 cic cosb. Wedyn ymlaen i 'knock-out' os mae'r sgôr dal yn gyfartal.

### Pasio'r pêl i fewn / Taflriad

- Mae chwaraewyr yn pasio'r pêl i fewn yn hytrach na taflu
- Dyle fod y pêl yn llonydd wrth i'r chwaraewr cicio'r pêl i fewn
- Ni chei'r bêl mynd dros uchder pen wrth gicio'r bêl nol fewn i'r cae
- Gall gôl ddim cael eu sgorio gan cic sy'n mynd syth fewn i'r gôl (ailgychwyn o'r golwr)
- Rhaid i'r tîm amddiffynnol bod 3 llath i ffwrdd o'r bêl

### Rheolau Cyffredinol

- Fe ddylai'r bêl fod yn faint **3**
- Ceir cic gychwyn o ganol y cae i ddechrau'r gêm ac ar ôl i gôl gael ei sgorio - Mae angen i'r tîm amddiffyn fod 3 llath i ffwrdd ac na all gôl cael ei sgorio yn syth o'r gic gyntaf.
- Gellir defnyddio eilyddion yn ystod unrhyw adeg o'r gêm
- Nid oes cyfyngiad ar y nifer o chwaraewyr y gellir eu cael yng nghwrt y gôl
- **Rhaid i bob chwaraewr wisgo 'shin pads' i gymryd rhan – ni fydd yr Urdd yn darparu rhain**
- Nid oes rheol camsefyll



## Pêl-rwyd Cenedlaethol Cynradd – Merched

**Merched Blwyddyn 5 a 6** (Caniateir blwyddyn 4 i gymryd rhan gyda chaniatâd rhiant)

**Gêm Rownd Terfynol:** Os bydd gem gyfartal yn y rowndiau terfynol, bydd 3 munud bob ffordd yn ychwanegol i chwarae. Os mae'r gem dal yn gyfartal bydd uchafswm o 4 munud o 'gôl aur' yn cael ei chwarae – tîm gyntaf i sgorio sy'n ennill.

### Rheolau a Chyfarwyddiadau Cyffredinol

Cafodd y rheolau yma eu cynllunio gan Bêl-rwyd Cymru er mwyn annog cyfranogiad ac i arwain at y gêm lawn i oedolion. Yr athroniaeth tu ôl y rheolau yw annog pobl i gymryd rhan a rhoi'r pwyslais ar gael hwyl, diogelwch a datblygu sy'n addas i oed a lefel y chwaraewr.

Caniateir 7 aelod o'r tîm ar y cwrt. Gall y chwaraewyr fynd i'r ardaloedd canlynol:

**GS** = 1, 2 - yn Gymraeg **S** (Saethwr)

**GA** = 1, 2, 3 - yn Gymraeg **YG** (Ymosodwr Gôl)


**WA** = 2, 3 - yn Gymraeg **AY** (Asgellwr Ymosodol)

**C** = 2, 3, 4 - yn Gymraeg **C** (Canolwr)

**WD** = 3, 4 - yn Gymraeg **AA** (Asgellwyr Amddiffynnol)

**GD** = 3, 4, 5 - yn Gymraeg **AG** (Amddiffynnwr Gôl)

**GK** = 4, 5 - yn Gymraeg **G** (Golgeidwad)



### Rheolau'r Gystadleuaeth

Mae rheolau oedolion yn cael ei gweithredu gyda'r amodau olynol yn cael ei chysidro:

- **Llacio'r rheol 3 eiliad (hyd at 5 eiliad)** er mwyn rhoi amser i chwaraewyr adennill eu cydbwysedd a gwneud penderfyniadau - sydd angen mwy o amser ar y lefel hon
- **Llacio'r rheol ynglŷn â throedwaith**, rhoi amser i chwaraewyr adennill cydbwysedd, ond peidio â symud i lawr y cwrt (bydd hyn yn cael ei rheoli ar sail barn y dyfarnwr)
- **Rhaid i chwaraewyr fod 3 troedfedd oddi wrth y traed glanio'r person gyda'r bêl. Mae chwaraewyr yn cael amddiffyn ar y cwrt ac yn cael amddiffyn 'shot'.**
- Llacio'r rheol ailchwarae, yn enwedig wrth chwarae y tu allan mewn tywydd oer/gwlyb (bydd hyn yn cael ei rheoli ar sail barn y dyfarnwr)
- **Gorfodi'r rheol ynglŷn â chyffwrdd corfforol**
- Dim cosb am daflu i mewn yn anghywir, yn lle hynny egluro i chwaraewyr y ffordd gywir. Ar ôl dau achos o daflu mewn yn anghywir gan yr un chwaraewr, mi fydd wedyn yn cael eu cosbi.
- Rhoi eiliad i chwaraewyr fynd yn ôl i safle ar ochr, cosbi'r chwaraewyr os yw'n aros mewn safle camochri ac yn effeithio ar y tîm sydd ddim yn torri'r rheol (chwarae'r mantais)
- Mae'r postyn sydd uwchben y cylch (hoop) (pan fydd yn rhaid disgyn y pyst) 'tu allan i'r cwrt'.
- Pêl maint 4 a taldra pyst gôl ar yr uchder cywir yw 2.74m (9').

### Ni all chwaraewr:

- (a) Cicio'r bêl yn fwriadol
- (b) Rhoi mewn i ddwylo neu rollo'r bêl i chwaraewr arall
- (c) Rhoi ei ddwylo ar bêl sydd yn nwylo gwrthwynebwyr
- (d) Taflu'r bêl wrth eistedd/gorwedd ar y ddaear
- (e) Dal y postyn gôl fel cymorth i gadw cydbwysedd neu am unrhyw reswm
- (f) Taflu'r bêl dros traean
- (g) Adennill meddiant pêl, cyn iddi gael ei chyffwrdd gan chwaraewr arall

### Gyffredinol

- Ni fydd amser ychwanegol ar gyfer anafiadau
- Rydym yn gofyn i athrawon/hyfforddwyr **sgorio gemau eu hun**

- Ni chaniateir eitemau o gemwaith neu eitemau miniog yn y gwallt – does ddim hawl gan chwaraewyr i dapio dros gemwaith.
- Rhaid i chwaraewyr torri ewynnau'n fyr cyn chwarae
- Rhaid i eilyddion cael eu wneud ar hanner amser (os nad oes hanner amser yn cael eu chwarae, rhaid i eilyddion cael eu gwneud yn ystod toriad mewn gêm).



## Pêl-rwyd Cenedlaethol Cynradd - Cymysg

**Blwyddyn 5 a 6** (Caniateir blwyddyn 4 i gymryd rhan gyda chaniatâd rhiant)

Carfan o 12, **rhaidd cael o leiaf 2 bachgen a 2 ferch ar y cwrt**

**Gêm Rownd Terfynol:** Os bydd gem gyfartal yn y rowndiau terfynol, bydd 3 munud bob ffordd yn ychwanegol i chwarae. Os mae'r gem dal yn gyfartal bydd uchafswm o 4 munud o 'gôl aur' yn cael ei chwarae – tîm gyntaf i sgorio sy'n ennill.

### Rheolau a Chyfarwyddiadau Cyffredinol

Cafodd y rheolau yma eu cynllunio gan Bêl-rwyd Cymru er mwyn annog cyfranogiad ac i arwain at y gêm lawn i oedolion. Yr athroniaeth tu ôl y rheolau yw annog pobl i gymryd rhan a rhoi'r pwyslais ar gael hwyl, diogelwch a datblygu sy'n addas i oed a lefel y chwaraewr.

Caniateir 7 aelod o'r tîm ar y cwrt. Gall y chwaraewyr fynd i'r ardaloedd canlynol:

**GS** = 1, 2 - yn Gymraeg **S** (Saethwr)

**GA** = 1, 2, 3 - yn Gymraeg **YG** (Ymosodwr Gôl)


**WA** = 2, 3 - yn Gymraeg **AY** (Asgellwr Ymosodol)

**C** = 2, 3, 4 - yn Gymraeg **C** (Canolwr)

**WD** = 3, 4 - yn Gymraeg **AA** (Asgellwyr Amddiffynnol)

**GD** = 3, 4, 5 - yn Gymraeg **AG** (Amddiffynnwr Gôl)

**GK** = 4, 5 - yn Gymraeg **G** (Golfeidwad)



### Rheolau'r Gystadleuaeth

Mae rheolau oedolion yn cael ei gweithredu gyda'r amodau olynol yn cael ei chysidro:

- **Llacio'r rheol 3 eiliad (hyd at 5 eiliad)** er mwyn rhoi amser i chwaraewyr adennill eu cydbwysedd a gwneud penderfyniadau - sydd angen mwy o amser ar y lefel hon
- **Llacio'r rheol ynglŷn â throedwaith**, rhoi amser i chwaraewyr adennill cydbwysedd, ond peidio â symud i lawr y cwrt (bydd hyn yn cael ei rheoli ar sail barn y dyfarnwr)
- **Rhaidd i chwaraewyr fod 3 troedfedd oddi wrth y traed glanio'r person gyda'r bêl. Mae chwaraewyr yn cael amddiffyn ar y cwrt ac yn cael amddiffyn 'shot'.**
- Llacio'r rheol ailchwarae, yn enwedig wrth chwarae y tu allan mewn tywydd oer/gwlyb (bydd hyn yn cael ei rheoli ar sail barn y dyfarnwr)
- **Gorfodi'r rheol ynglŷn â chyffwrdd corfforol**
- Dim cosb am daflu i mewn yn anghywir, yn lle hynny egluro i chwaraewyr y ffordd gywir. Ar ôl dau achos o daflu mewn yn anghywir gan yr un chwaraewr, mi fydd wedyn yn cael eu cosbi.
- Rhoi eiliad i chwaraewyr fynd yn ôl i safle ar ochr, cosbi'r chwaraewyr os yw'n aros mewn safle camochri ac yn effeithio ar y tîm sydd ddim yn torri'r rheol (chwarae'r mantais)
- Mae'r postyn sydd uwchben y cylch (hoop) (pan fydd yn rhaid disgyn y pyst) 'tu allan i'r cwrt'.
- Pêl maint 4 a taldra pyst gôl ar yr uchder cywir yw 2.74m (9').

### Ni all chwaraewr:

- Cicio'r bêl yn fwriadol
- Rhoi mewn i ddwylo neu rollo'r bêl i chwaraewr arall
- Rhoi ei ddwylo ar bêl sydd yn nwylo gwrthwynebwr
- Taflu'r bêl wrth eistedd/gorwedd ar y ddaear
- Dal y postyn gôl fel cymorth i gadw cydbwysedd neu am unrhyw reswm
- Taflu'r bêl dros traean
- Adennill meddiant pêl, cyn iddi gael ei chyffwrdd gan chwaraewr arall

### Gyffredinol

- Ni fydd amser ychwanegol ar gyfer anafiadau

- Rydym yn gofyn i athrawon/hyfforddwyr **sgorio gemau eu hun**
- Ni chaniateir eitemau o gemwaith neu eitemau miniog yn y gwallt – does ddim hawl gan chwaraewyr i dapio dros gemwaith.
- Rhaid i chwaraewyr torri ewynnau'n fyr cyn chwarae
- Rhaid i eilyddion cael eu wneud ar hanner amser (os nad oes hanner amser yn cael eu chwarae, rhaid i eilyddion cael eu gwneud yn ystod toriad mewn gêm).
-



## Rygbi 7 pob ochr Agored

### Rygbi 7 bob ochr Cynradd Cenedlaethol

**Mae'r rheolau isod wedi ei gymryd o lawlyfr 'Pathways' Undeb Rygbi Cymru.**

#### Manylion Tîm

- Carfan o 12 – 7 ar y cae a 5 eilydd
- Blynnyddoedd 5 a 6 yn unig (dan 11 ar 01 Medi)
- Mae'n rhaid bod y ddau dîm yn rhoi'r un faint o chwaraewyr ar y cae bob amser. (Lleiafswm o 5)

#### Amser

- Uchafswm o 14 munud y gêm

#### Troseddi

- Tacl hyd at y canol neu is ar corff yr ymosodwr gyda'r bêl yn unig, os bydd tacl uchel bydd pass rhydd ei wobruo i'r tim ymosodol.
- Ni chaniateir 'hand-off' ar unrhyw ran o'r corff
- Dim ond cicio yn hanner eich hun
- Nad ydyn yn caniatáu techneg 'cavalry charge' o bas rhydd. Bydd rhaid i chwaraewr dechrau ei rhediad o fewn 2 fetr o'r chwaraewr sy'n pasio'r bêl.
- Mae cerdyn melyn yn golygu fod y chwaraewr yn cael ei hela bant am 2 funud
- Mae cerdyn coch yn golygu fod y chwaraewr yn cael ei anfon oddi ar y cae a ddim yn cael chwarae am weddill y gystadleuaeth

#### Ardal Tacl

- Mae'r llinell cam-sefyll 1m nôl o'r darn pellaf nôl o'r ardal tacl
- Dim sgarmesu (mauling) o gwbl
- Does dim modd rhwygo'r bel oddi wrth y chwaraewr gyda'r bel
- Un aelod o bob tîm yn cael cystadlu am y bêl
- Chwaraewr gyntaf i'r ardal tacl yn cael pigo'r bêl fyny a rhedeg

#### Sgrym

- **Dim gwthio yn y sgrym** - Mae gan y ddau fachwr yr hawl i gystadlu am y bêl
- **Rhaid i'r ddau dim clymu yn gywir**
- Uchafswm o 3 chwaraewr yn y sgrym
- Ond y mewnwr all pigo fyny'r bêl o sgrym

#### Cyffredinol

- Maint cae o'r llinell 5m i'r llinell 10m - chwarae ar draws cae rygbi arferol (30mx60m)
- Maint pêl: 3
- Y tîm wnaeth sgorio i aildechrau'r chwarae mewn ffordd 'drop-kick'
- Dim ond cicio yn hanner eich hun
- Eilyddion hyblyg, chwaraewyr i adael a chyrraedd y cae wrth y llinell hanner ffordd
- Dim cystadlu yn y line-out 2v2
- Ni chaniateir chwaraewr i ddal y pêl a rhedeg o'r line-out
- Rhaid i'r mewnwr neu pwy bynnag sy'n sefyll yn safle'r mewnwr pasio'r bêl o sgrym, ryc a llinell allan.

## Rygbi Tag Merched

**Mae'r rheolau isod wedi ei gymryd o lawlyfr 'Pathways' Undeb Rygbi Cymru.**

### Manylion Tîm:

- Carfan o 12 ferch – 7 ar y cae a 5 eilydd
- Mae'n rhaid bod y ddau dîm yn rhoi'r un faint o chwaraewyr ar y cae bob amser. (lleiafswm o 5)
- Blwyddyn 5 a 6 (Caniateir blwyddyn 4 i gymryd rhan gyda chaniatâd rhiant)

### Rheolau cyffredinol:

- 50m (hyd) x 40m (lled) ar y mwyaf ; 40m (hyd) x 30m (lled) ar y lleiaf.
- Maint Pêl: 3
- Ni chaniateir cicio.
- Ni fydd taflïad 'line-out' o'r llinell neu sgrymio - bydd rhaid i'r chwaraewr cyffwrdd y bêl ar y llawr a'i throed a'i pasio o'r man mae'r dyfarnwr yn penodi

### RHEOLAU TAG:

- Gêm i gychwyn gyda phas rydd – tîm amddiffyn i fod 5m yn ôl.
  - Tîm sy'n ildio cais i ailgychwyn y gêm
  - 6 tag, yna troi'r meddiant drosodd i'r gwrthwynebwyr
  - Rhaid i'r chwaraewr wedi ei dagio basio'r bêl o fewn 3 eiliad o gael ei dagio
  - **Rhaid i'r taclwr ddychwelyd y tag i'r ymosodwr cyn parhau â'r chwarae. Nid oes hawl taflu tag. Bydd troseddu'n barhaol yn cael ei gosbi.**
  - Eilyddion hyblyg, chwaraewyr i adael a chyrraedd y cae wrth y llinell hanner ffordd
  - Rhaid tynnu dau dag a'u rhoi i'r eilydd sy'n dod ar y maes i'w gosod uwchben y gwregys cyn iddi gael effaith
  - Rhaid i chwaraewr gael dau dag cyn sgorio cais, ond os caiff tag ei dynnu wrth sgorio, caniateir y cais.
  - Os bydd chwaraewr yn croesi'r llinell gydag un tag, bydd yn cael ei thynnu'n ôl i ble wnaethom derbyn y bel gyda chyfri'r tag yn parhau.
  - Rhaid aros ar y traed wrth sgorio cais – does ddim hawl i chwaraewyr neidio wrth sgorio (dive), bydd y pel yn newid meddiant ac bydd pas rhydd yn cael ei gwobruo – ni fydd y cais yn sefyll.
    - Mae hawl gan chwaraewyr troi allan o dacl.
    - Does ddim hawl nedio mewn/trwy dacl
  - Ni chaniateir 'hand-off'- gan gynnwys blocio tag
  - Pas rydd am bob cosb (penalty)
  - Anogir cydio yn y bêl gyda dwy law, ond nid yw'n rheol rygbi tag.
  - Mae cerdyn melyn yn golygu fod y chwaraewr yn cael ei anfon i ffwrdd o'r cae am 2 funud
  - Mae cerdyn coch yn golygu fod y chwaraewr yn cael ei anfon i ffwrdd o'r cae a ddim yn cael chwarae am gweddill y gystadleuaeth
  - Rhaid i'r pêl gadael dwylo'r chwaraewr i gwblhau pas
- Ar ôl cwblhau tacl, rhaid i'r tîm amddiffyn retreat 1M o ble cafodd y dacl i gwblhau.
- Rhaid i'r tîm amddiffyn fod 5M yn ôl pan fydd y tîm ymosodol yn cymryd pas rhydd.

## Rygbi Tag Cymysg – Bl.3-4

Mae'r rheolau isod wedi ei gymryd o lawlyfr 'Pathways' Undeb Rygbi Cymru.

### Manylion Tîm:

- Carfan o 12 – 7 ar y cae a 5 eilydd
- Mae'n rhaid bod y ddau dîm yn rhoi'r un faint o chwaraewyr ar y cae bob amser. (lleiafswm o 5)
- Blynnyddoedd 3 a 4 yn unig
- **Rhaid cael o leiaf 2 bachgen a 2 ferch ar y cae**

### Rheolau cyffredinol:

- 50m (hyd) x 40m (lled) ar y mwyaf ; 40m (hyd) x 30m (lled) ar y lleiaf.
- Maint Pêl: 3
- Ni chaniateir cicio.
- Ni fydd taflad 'line-out' o'r llinell neu sgrymio - bydd rhaid i'r chwaraewr cyffwrdd y bêl ar y llawr a'i throed a'i pasio o'r man mae'r dyfarnwr yn penodi

### RHEOLAU TAG:

- Gêm i gychwyn gyda phas rydd – tîm amddiffyn i fod 5m yn ôl.
  - Tîm sy'n ildio cais i ailgychwyn y gêm
  - 6 tag, yna troi'r meddiant drosodd i'r gwrthwynebwyr
  - Rhaid i'r chwaraewr wedi ei dagio basio'r bêl o fewn 3 eiliad o gael ei dagio
  - **Rhaid i'r taclwr ddychwelyd y tag i'r ymosodwr cyn parhau â'r chwarae. Nid oes hawl taflu tag. Bydd troseddu'n barhaol yn cael ei gosbi.**
  - Eilyddion hyblyg, chwaraewyr i adael a chyrraedd y cae wrth y llinell hanner ffordd
  - Rhaid tynnu dau dag a'u rhoi i'r eilydd sy'n dod ar y maes i'w gosod uwchben y gwregys cyn iddi gael effaith
  - Rhaid i chwaraewr gael dau dag cyn sgorio cais, ond os caiff tag ei dynnu wrth sgorio, caniateir y cais.
  - Os bydd chwaraewr yn croesi'r llinell gydag un tag, bydd yn cael ei thynnu'n ôl i ble wnaethom derbyn y bel gyda chyfri'r tag yn parhau.
  - Rhaid aros ar y traed wrth sgorio cais – does ddim hawl i chwaraewyr neidio wrth sgorio (dive), bydd y pel yn newid meddiant ac bydd pas rhydd yn cael ei gwobruo – ni fydd y cais yn sefyll.
    - Mae hawl gan chwaraewyr troi allan o dacl.
    - Does ddim hawl nedio mewn/trwy dacl
  - Ni chaniateir 'hand-off'- gan gynnwys blocio tag
  - Pas rydd am bob cosb (penalty)
  - Anogir cydio yn y bêl gyda dwy law, ond nid yw'n rheol rygbi tag.
  - Mae cerdyn melyn yn golygu fod y chwaraewr yn cael ei anfon i ffwrdd o'r cae am 2 funud
  - Mae cerdyn coch yn golygu fod y chwaraewr yn cael ei anfon i ffwrdd o'r cae a ddim yn cael chwarae am gweddill y gystadleuaeth
  - Rhaid i'r pêl gadael dwylo'r chwaraewr i gwblhau pas
- Ar ôl cwblhau tacl, rhaid i'r tîm amddiffyn retreat 1M o ble cafodd y dacl i gwblhau.
- Rhaid i tîm amddiffyn fod 5M yn ôl pan fydd y tîm ymosodol yn cymryd pas rhydd.

## Criced 50/50 Cenedlaethol

### Rheolau a Thaflen Sgorio

#### Mae'r gêm yn cynnwys:

- 12 chwaraewr mewn carfan; 10 chwaraewr bob gêm
- Rhaid cael 2 Merch a 2 Bachgen yn chwarae ar bob adeg
- Blwyddyn 3 a 4 yn unig
- Mae pob person yn batio am 5 pêl
- Mae pob person yn bowllo am 5 pêl
- Hyd y gêm yw 50 pêl i bob tîm
- Mae pob person yn batio gyda partner ac yn rhedeg rhwng y wiced gyda'i gilydd
- Mae **rhaid** i'r tîm sy'n maesu yn symud safleoedd yn glocwedd ar ddiwedd pob 5 pêl

#### Batio

- Mae pob pêl yn batio am 10 pêl – rhaid i'r ddau batiwr wynebu 5 pêl yr un
- Wrth fatio mae'n rhaid i chi redeg i sgorio eich rhediadau i gyd
- Does DIM ffiniau i ochr y cae (heb law bod angen gosod ffiniau am rhesymau iechyd a diogelwch wrth ystyried y lleoliad)
- Mae'n rhaid i'r batiwr redeg i'r stymps gyferbyn i ennill rhediad. Rhaid i'r chwaraewr neu bat y chwaraewr (rhaid i'r bat bod mewn dwylo y chwarewr), cyrraedd llinell y stymps er mwyn cyfri'r rhediad

#### Bowllo

- Mae pob person yn bowllo am 5 pêl
- Gellir bowllo pob pêl o dan y fraich neu dros y fraich (rhaid i'r fraich fod yn syth wrth bowllo dros y fraich) – gwiriwch yr adran sgorio i weld manteision o bowllo dros y fraich
- Ni ddylai'r bêl fownsio mwy na dwywaith o flaen y batiwr tra mae ef neu hi yn sefyll i aros am y bêl
- Bydd unrhyw bêl sy'n uwch na lefel yr ysgwydd wrth sefyll yn syth yn cael ei dyfarnu'n bêl gwallus
- Bydd unrhyw bêl sy'n glanio tu allan i'r cons naill ochr i'r stymps yn cael ei dyfarnu fel pel llydan – **os mae'r batiwr yn taro'r pel, dydi o ddim yn cyfri fel pêl llydan**

#### Man Chwarae


- Bydd dwy set o stympiau yn cael eu gosod 15 medr ar wahân
- Mi fydd dau gôn yn cael eu rhoi wrth ochr y stympiau i helpu nodi pêl lydan a dangos llinell i'r rhedwyr cyrraedd i sgorio rhediad.

#### Maesu

- Mae pob person yn symud safleoedd yn glocwedd wedi i bob 5 pêl gael eu bowllo i roi cyfle i bawb faesu ymhob safle

#### Sgorio

- Mae pob tîm yn dechrau ar 50 rhediad
- Tynnu 5 rhediad am unrhyw fatiwr sy'n cael eu bowllo, rhedeg neu dal allan, o dan yr amod bod y bowliwr wedi bowllo dros y fraich. Tynnu 3 rhediad os wnaeth y bowliwr taflu o dan y fraich.
- Mae pêl wallus neu bêl lydan yn cyfri' fel 2 rediad ychwanegol. Ni fydd pel ychwanegol yn cael ei bowllo o ganlyniad pêl wallus neu bel lydan, heb law am y pel olaf ym mhob batiad.
- Os mae batiwr yn ennill rhediadau o pel wallus mae'r pwyntiau yn cael eu ychwanegu ar ben y 2 pwynt am y pel wallus
- Mae'n RHAID diweddu'r gêm gyda phêl gyfreithlon
- Gall batwyr cael eu rhedeg allan unrhyw ochr.
- Mae'r batiwr yn ddiogel unwaith mae ef/hi wedi cyrraedd llinell y stymps
- Os bydd dau dîm gyda'r un faint o bwyntiau, bydd y tîm sydd wedi sgorio'r mwyaf o rediadau yn mynd drwodd.



- Os bydd gêm gyn-derfynol neu derfynol yn gyfartal, yna dewisir yr enillwyr gan ddwy *super over* i bob tîm.

## Diolchiadau

Hoffwn ddiolch ein partneriaid am ddarparu'r rheolau ar gyfer ein cystadlaethau ac am gefnogi Chwaraeon yr Urdd.



---

Diolch yn fawr iawn i'r ysgolion sy'n cefnogi Chwaraeon yr Urdd.



# Chwaraeon

# Urdd Sport Competition Rules

## 2026-27

### Primary Schools Competitions



Urdd



ChwaraeonyrUrdd



ChwaraeonUrdd



02922 405 345



chwaraeon@urdd.org

## Genral Rules for Chwaraeon yr Urdd Competitions

### 1) Order of the Day

The majority of competitions will take place during the school day. Teams will be required to register from 9:00am, with the first games starting at 10:00am. We ask that schools arrive punctually to ensure the competition runs according to schedule.

